WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Keith Griffiths
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
Rhondda Cynon Taf
CF40 2XX

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 613A2012 |
| **Dyddiad** | 30 Ionawr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o 5 |

Annwyl Keith

## Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 26 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella.

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn trwy:

- adolygu'r Adroddiad Cyflawni Blynyddol (yr Adroddiad), a gynhyrchwyd ac a gyhoeddwyd gan y Cyngor erbyn 31 Hydref 2012, a oedd yn adrodd ar ei berfformiad yn 2011-12;
- cynnal cyfweliadau â rheolwyr ac adolygu dogfennau ategol mewn sampl o'r meysydd gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad; a
- phrofi dibynadwyedd sampl o ddangosyddion perfformiad.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Trwy gyhoeddi'r Adroddiad erbyn y terfyn amser ar 31 Hydref 2012, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Mesur, o dan Adran 15 (7).

Cymeradwywyd yr Adroddiad gan y Cyngor llawn ar 17 Hydref 2012 ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor o'r farn bod yr Adroddiad yn ddogfen dechnegol na fyddai o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd. Felly, yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg, nid yw wedi cyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r Adroddiad, er y bydd yn ei darparu ar gais. Mae crynodeb dwyieithog o'r Adroddiad yn rhifyn mis Tachwedd 2012 o Rhagolygon, cylchlythyr y Cyngor i drigolion lleol, ac mewn pwyntiau mynediad i gwsmeriaid megis llyfrgelloedd a chanolfannau aml-bwrpas. Mae'r crynodeb yn cynnwys dolen i'r Adroddiad, gan dynnu sylw dinasyddion at ei fodolaeth. Mae'r Cyngor yn darparu diweddariadau chwarterol ar gynnydd i bobl leol trwy Rhagolygon. Caiff y crynodeb hwn, ynghyd â'r crynodeb o'r Cynllun Corfforaethol, eu cynnwys mewn pecyn gwybodaeth a ddosberthir i ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid fel rhan o'r broses o ymgynghori ar y gyllideb ar gyfer 2013-14.

Mae Adroddiad y Cyngor yn amlinellu ystod gynhwysfawr o dystiolaeth i ddangos y cynnydd y mae'n ei wneud yn erbyn ei wyth blaenoriaeth gwella, ynghyd ag agweddau eraill ar welliannau ehangach, a gwybodaeth briodol am ei weithgareddau cydweithio. Mae'r Adroddiad wedi'i strwythuro'n dda a'i osod allan mewn ffordd resymegol, gan helpu'r darllenydd i ddeall y fframwaith cyfreithiol a'r cyfrifoldebau cymunedol sy'n llywio gwaith y Cyngor.

Mae'r Adroddiad yn darparu tystiolaeth o'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud a pham a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn wahanol yn y dyfodol. Mae hefyd yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i wneud y gwelliannau, gan gynnwys rôl y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu o ran monitro cynnydd. Mae cyfraniad materion trawsbynciol sy'n helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion gwella'r Cyngor – megis cynlluniau ariannol yn y tymor canolig a chysylltiadau cwsmeriaid gwell – wedi'u hintegreiddio'n dda.

## Er bod yr Adroddiad Cyflawni Blynyddol yn gynhwysfawr, teg a chytbwys ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, gallai ddarparu gwerthusiad cliriach o gynnydd cyffredinol y Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella

Mae'r Mesur wedi bod ar waith ers tair blynedd. Dyma'r ail flwyddyn y mae'r Cyngor wedi gorfod cyhoeddi Adroddiad Perfformiad sy'n bwrw golwg yn ôl yn unol â gofynion y Mesur. Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, pwysleisiais fod y Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau fod yn fwy hunanfeirniadol

a gwerthusol o ran sut y maent yn darparu eu gwasanaethau a bod angen i gynghorau ganolbwyntio'n fwy clir ar effaith gwasanaethau ar ddinasyddion a'r canlyniadau i ddinasyddion.

Mae fy archwiliad o hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2011-12 wedi dod o hyd i dystiolaeth bod y Cyngor yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella a amlinellwyd yn fy adroddiadau blaenorol, er bod angen gwneud rhywfaint o waith pellach. Ar y cyfan, mae ansawdd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad o ran cyflawni yn ei feysydd gwella allweddol wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Er bod yr Adroddiad Cyflawni Blynyddol yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ddata a naratif esboniadol, gallai werthuso'n fwy clir gynnydd cyffredinol y Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella

Mae'r adroddiadau, yn yr Adroddiad a'i Grynodeb, yn ffeithiol a chytbwys ac mae'r Adroddiad yn cynnwys yr holl fesurau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i fonitro cynnydd. Mae'r asesiadau a wneir mewn perthynas â phob blaenoriaeth ar gyfer gwella yn drylwyr a manwl, gan gynnwys manylion unrhyw gamau gwella a gwblhawyd a dadansoddiad ystadegol perthnasol (e.e. canran y targedau a fodlonwyd). Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau a'r gwahaniaeth y mae camau gweithredu'r Cyngor yn ei wneud i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Mewn rhai meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella, gallai asesiad y Cyngor ddarparu esboniad cliriach o fanteision cyflawniadau allweddol a nodi effeithiau unrhyw danberfformiad, gan ddisgrifio sut y bydd yn mynd i'r afael â'r materion hynny.

O ystyried hyd yr Adroddiad a lefel y manylder a geir ynddo, efallai y bydd darllenydd yn ei chael hi'n anodd prosesu'r wybodaeth a gyflwynir a chynnal trosolwg ystyrlon. Byddai crynodeb cyffredinol clir o'r prif gyflawniadau a'r heriau'n rhoi gwerthusiad mwy ystyrlon i'r darllenydd, yn enwedig dinesydd neu ddefnyddiwr gwasanaethau, o gynnydd y Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r Cyngor ddefnyddio adnoddau i gynhyrchu'r Crynodeb ochr yn ochr â'r prif Adroddiad, ac efallai yr hoffai ystyried defnyddio sgiliau ei Dîm Cyfathrebu i helpu i sicrhau bod cynnwys y Crynodeb ar gael yn rhwydd a'i fod yn ddealladwy o safbwynt y dinesydd.

## Er bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i fonitro a herio perfformiad yn chwarterol, ychydig iawn o graffu sydd ar yr Adroddiad Cyflawni Blynyddol cyn ei gyhoeddi

Mae gan y Cyngor fframwaith sydd wedi ei hen sefydlu ar gyfer monitro perfformiad yn seiliedig ar adroddiadau chwarterol. Mae'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i'r system hon yn gynhwysfawr a chywir. Wrth fonitro perfformiad ar sail eithriad, mae'n bwysig bod targedau'n briodol o heriol yng nghyd-destun perfformiad y Cyngor ar hyn o bryd a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Cyngor wedi disgrifio'r trefniadau sydd ganddo ar waith, sy'n cynnwys cyflwyno her gadarn i reolwyr gwasanaethau mewn perthynas â'u

cynlluniau a'u targedau cyn eu cymeradwyo. Mae'r Prif Weithredwr wedi gwahodd aelodau o'm tîm i amryw o'r cyfarfodydd cynllunio hyn eleni er mwyn iddynt asesu effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar fy nghanfyddiadau yn fy Llythyr Asesiad Gwella nesaf.

Mae gwybodaeth berthnasol am berfformiad yn cael ei hystyried a'i thrafod yn chwarterol gydol y flwyddyn gan reolwyr gwasanaethau, rheolwyr corfforaethol a'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Yn ôl y disgwyl, mae'r trefniadau hyn yn arwain at gwestiynau'n codi ar lefelau priodol lle nad yw'r perfformiad yn unol â disgwyliadau, ac at benderfyniadau'n cael eu gwneud gyda'r nod o fynd i'r afael â'r tanberfformiad a nodir. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan lawn yn Astudiaeth Gwella Craffu eleni a fydd yn llywio ei hunanasesiad o effeithiolrwydd ei drefniadau craffu trwy ddefnyddio adolygiadau gan gymheiriaid a dysgu a rennir gyda chynghorau eraill yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae angen llawer o adnoddau i gynhyrchu Adroddiad Cyflawni Blynyddol y Cyngor ac mae'r amserlen i sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi erbyn y terfyn amser statudol yn gryn her. Er bod yr Adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet cyn ei gyhoeddi, nid yw Aelodau'n cael llawer o gyfle i graffu'n drylwyr ar yr Adroddiad cyn ei gyhoeddi.

Mae gan rai cynghorau eraill yng Nghymru drefniadau ar waith sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i grŵp o aelodau (e.e. Cyd-Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu) graffu ar eu hadroddiad gwella blynyddol cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Darperir adroddiad ar ganfyddiadau'r pwyllgor craffu ynglŷn ag a yw'r adroddiad yn adlewyrchu'n deg y cynnydd a wnaed o ran cyflawni yn erbyn blaenoriaethau ar gyfer gwella i'r Cabinet/Cyngor i lywio'r broses gymeradwyo. Yn fy marn i, mae trefniadau o'r fath yn werth chweil gan eu bod yn cynyddu'r atebolrwydd am berfformiad ac yn defnyddio her fewnol i hyrwyddo hunanasesiad beirniadol a hunanwerthusiad cadarn o gynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau ar gyfer gwella a chanlyniadau i ddinasyddion. Rwyf wedi cynnig y dylai'r Cyngor ystyried pa drefniadau tebyg fyddai'n briodol yng nghyd-destun ei amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiadau gwella, a bydd fy staff yn gweithio gyda swyddogion i'w helpu i roi'r trefniadau hynny ar waith yn barod ar gyfer Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2013.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Paratoi a chyhoeddi crynodeb o'r prif gyflawniadau a'u manteision; a heriau sy'n dal i fodoli a'r dull o fynd i'r afael â nhw, er mwyn darparu gwerthusiad ystyrlon i ddinasyddion o gynnydd cyffredinol y Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella. |
| C2 | Datblygu ymhellach drefniadau i graffu ar yr Adroddiad Cyflawni Blynyddol a'r Crynodeb cyn eu cyhoeddi. |

Yn gywir

HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau